# Adolygiad o arallgyfeirio gwledig gan bwyllgor Amaeth a Datblygu Gwledig y Cynulliad Cenedlaethol

Papur i ysgogi trafodaeth yng nghyfarfod 28ain Hydref 2000

## CWYSI (Menter a Busnes)

### Cefndir

Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus yn 1994 â ymchwiliodd rhai o'r rhwystrau i weithgaredd economaidd ymhlith teuluoedd fferm yng Nghymru, mae CWYSI bellach wedi'i sefydlu fel y prif raglen sy'n cynorthwyo teuluoedd fferm i ddatblygu syniadau creu incwm. Trwy ganolbwyntio ar y nod o 'gynorthwyo teuluoedd fferm i reoli newid' mae'r prosiect wedi canolbwyntio ar ddatblygu agweddau positif tuag at fenter gan gyplysu hyn gyda'r gefngaeth briodol i ddatblygiadau newydd. Mae gweithgareddau'r prosiect yn cael eu darparu drwy rwydwaith o hwyluswyr lleol sydd yn aelodau o deuluoedd fferm eu hunain. Mae'r hwyluswyr yn gyfrifol am ennyn diddordeb ac hyrwyddo ymddygiad mentrus trwy raglen fwriadol o weithgareddau priodol. Maen't yn gyfrifol nid yn unig am gynorthwyo unigolion trwy'r cyfnod cyn-ddatblygu ond hefyd am weithredu fel dolen gyswllt rhwng teuluoedd fferm a phob math o sefydliadau all gynnig cymorth pellach gan gynnwys Cyswllt Busnes, cynghorwyr technegol, darparwyr hyfforddiant, ffynonellau cyllid a.y.y.b.

Mae'r patrwm yma o ddefnyddio aelodau teuluoedd fferm i sicrhau fod bobl yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael yn amlwg yn dwyn ffrwyth. Mewn un digwyddiad diweddar ar fferm ger Aberystwyth (i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd creu incwm i deuluoedd fferm) daeth tyrfa o dros 2000 o ffermwyr ynghyd gan esgor ar gyfartaledd 25 ymholiad i'r 85 sefydliad oedd yn bresennol.

Mae hwyluswyr CWYSI yn derbyn tua 30 ymholiad yn fisol ac ers dechrau'r prosiect yn Ebrill 1996 mae dros 2000 o ffermwyr wedi derbyn cyngor / gwybodaeth trwy rhwydwaith CWYSI.

### Gweithgareddau presennol

- cynhyrchu adnoddau gwreiddiol i ysgogi trafodaeth ac i ledaenu'r neges am lwyddiannau er mwyn sbarduno ymddygiad mentrus ( gan gynnwys pecynnau fideo / trafod, gêm fwrdd ar arallgyfeirio a chylchgrawn chwarterol sy'n cael ei ddosbarthu i dros 7000 o ffermydd).
- Cefnogi rhwydwaith o glybiau CWYSI sy'n dod â theuluoedd fferm ynghyd mewn awyrgylch lled gymdeithasol i drafod materion o bwys.
- Trefnu digwyddiadau sy'n ennyn trafodaeth a syniadau newydd.
- Cyhoeddi cyfres o lyfrau Sgilie Gwlad - bas data o wasanaethau a gynigir gan deuluoedd fferm.
- Hyrwyddo mynediad at gymorth sydd ar gael gan eraill yn cynnwys cyngor busnes a hyfforddiant.

- Cefnogi teuluoedd fferm yn ystod datblygu busnesau newydd trwy ddarparu gwybodaeth, ymchwil a deunydd hyrwyddo.

**Sylwadau ar ansawdd y gefnogaeth i fusnesau gwledig**

- Nid yw teuluoedd fferm yn sylweddoli perthnasedd Cyswllt Busnes iddynt hwy.
- Mae'r gwasanaeth a gynigir gan Cyswllt Busnes yn amrywio'n sylweddol o ardal i ardal. Ar ddiwedd y dydd mae'n dibynnu ar y **person** sy'n delio â'r ymholiad (gwybodaeth, gallu, agwedd).
- Pan fo CWYSI wedi llwyddo i ddatblygu cyswllt gyda unigolion allweddol o fewn Cyswllt Busnes mae'r gwasanaeth yn medru bod yn effeithiol iawn,
- Mae Cyswllt Busnes yn gwneud defnydd cynyddol o'r arbenigedd o fewn ei rwydwaith ac mae'n dod yn broses ddwy ffordd – sydd yn sicr yn gwneud gwell defnydd o'r wybodaeth / arbenigedd o fewn sefydliadau partneriaid e.e. CWYSI.
- Nid yw ychwanegu 'arbenigwyr' amaethyddol yma ac acw o fewn rhwydwaith Cyswllt Busnes yn ateb holl anghenion y diwydiant. Mae'n help wrth reswm ond mae llawer o'r ymholiadau ddaw trwy law CWYSI yn anghysylltiedig a'r diwydiant amaethyddol (e.e. efallai fod merch ffarm am fod yn berson trin gwallt - teithiol!) felly mae'n rhaid pwysleisio pwysigrwydd rôl yr hwylusydd lleol – i ddarparu'r cyswllt rhwng teuluoedd fferm ac ystod eang o ddarparwyr gan gynnwys Cyswllt Busnes.
- Nid yw'r rôl o hwyluso datblygiad mentrau mae hwyluswyr CWYSI yn gyflawni yn cyfarfod unrhyw dargedau o reidrwydd ond mae'n rôl allweddol. Mae rhai ymholiadau yn cymryd 2 flynedd cyn maent yn dechrau dwyn ffrwyth ac yn barod am ddatblygu pellach. Mae'r rôl yn cynnwys cynnal diddordeb, anogaeth, rhannu syniadau, canfod gwybodaeth a.y.y.b.
- Mae hwyluswyr CWYSI wedi gweithio'n agos gyda nifer o'r grwpiau Leader. Mae grwpiau Leader yn medru hwyluso datblygiad prosiectau trwy ariannu astudiaethau dichonolrwydd a chymorth marchnata - yn enwedig ar gyfer gweithgareddau grp. Mae'r rôl yma yn un y dylid eu datblygu.
- Nid yw mynediad at ffynonellau ariannu wedi eu cynllunio o safbwynt y ffarmwr - ac o'r herwydd maent yn aml mewn penbleth ynglyn a'r llwybr cywir i dderbyn cymorth.

**Sylwadau ar rwystrau i ddatblygiad busnesau gwledig ac arallgyfeirio**

Mae rhai o'r rhwystrau i ddatblygiad yn rhai agweddol gan gynnwys:

- diffyg menter /hyder
- diffyg ymddygiad entrepreneuriadd
- disgwyliadau isel

Mae'r rhesymau am yr agweddau hyn yn gyfuniad cymhleth o faterion megis, dibynnu ar grantie, traddodiad, diffyg trafodaethau teuluol, diffyg cynllunio mlaen, diffyg rôl models, magwraeth, dylanwadau personol (teulu, ffrindiau, cymuned, addysg, cyfryngau a.y.y.b.)

Fe fyddai rhwystrau eraill yn cynnwys:

- Systemau cefnogaeth clymbaredd
- Rhaglenni hyfforddi haearnaidd

**Gwelliannau penodol parthed cefnogaeth busnes ac ariannol i annog twf busnesau ifanc mewn ardaloedd gwledig**

- crisialu'r systemau cefnogaeth presennol **o safbwynt y cwsmer.**
- Darparu gwasanaeth safonol sy'n gyson trwy Gymru.
- O safbwynt y sector amaeth mae angen gweithredu amcanion F.I.S. ar fyrder gan ddiffinio rôls partneriaid yn glir.
- Mae peryg fod y ddogfen F.I.S. yn anelu i ddiogelu'r 'Status Quo' yn hytrach na ymdrechu i "wneud gwahaniaeth". Dylid sicrhau fod adnoddau ariannol digonol i ddatblygu a darparu yr hyn amlinelli'r yn F.I.S.
- Fe fyddai ymgorffori elfennau sydd yn hyrwyddo ymddygiad entrepreneuraidd a datblygu rôl yr hwyluswyr lleol i hyrwyddo y cymorth sydd ar gael yn medru gwneud gwahaniaeth sylweddol. (adeiladu ar brofiad hwyluswyr CWYSI).
- Datblygu rhaglen sy'n annog a chynorthwyo bobl ifanc i chwarae rôl llawn yn natblygiad yr economi wledig.
- Llacio'r rheoliadau cynllunio i hyrwyddo menter.
- Cyflwyno lefelau uwch o gymorth ariannol i fusnesau sy'n cychwyn (hyd yn oed os byddai hyn ar gael i nifer llai) gan nad yw'r diwydiant yn meddu ar arian parod digonol.

Alun Jones
18-10-00